Cynllun Cymunedol Crughywel – Canllaw Cynllunio Atodol

Mae Crughywel yn dref o fewn Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ble gwneir penderfyniadau cynllunio gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol Gynllun Datblygu Lleol sydd wedi ei fabwysiadu, sy'n gosod y polisi cynllunio ac yn diffinio ardaloedd o dir i gyflawni anghenion tai a chyflogaeth. Mabwysiadwyd Cynllun Cymunedol Crughywel fel Canllaw Cynllun Atodol (CCA) gan yr Awdurdod Cynllunio ym Mehefin 2017.

Fel CCA mabwysiedig, mae'r Cynllun Cymunedol yn ategu'r Cynllun Datblygu Lleol ac mae'n ddogfen allweddol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio priodol o fewn Crughywel. Mae'n darparu gwybodaeth fanwl ychwanegol ar gyfer yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i ategu'r Cynllun Datblygu Lleol ac yn gosod polisïau manwl sy'n delio â materion sydd o bwys i'r Dref; bydd unrhyw gais cynllunio a gyflwynir o fewn Crughywel yn cael ei ystyried yn erbyn adrannau perthnasol Cynllun y Dref. Dim ond cynigion sy'n cydfynd â'r cynllun cymunedol a gaiff ganiatad cynllunio.

http://www.beacons-npa.gov.uk/planning/draft-strategy-and-policy/supplementary-planning-guidance/